# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Selca**

**The Old Gospel Hall**
**Rose Terrace**
**Llanharan**
**Pont-y-clun**
**CF72 9RH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

10/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglyn â Meithrinfa Ddydd Selca

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Selca Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Gorffennaf 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Arolygiad â ffocws oedd hwn ac, ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried pob thema yn fanwl.

Mae’r plant yn hyderus ac yn hapus ac yn mwynhau eu hamser ym Meithrinfa Ddydd Selca. Mae ganddynt gyfleoedd i wneud dewisiadau, mwynhau ystod o gyfleoedd chwarae diddorol, a mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu, gan ffurfio perthynas glòs â'r staff gofal.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn gweithio'n gyson ac mae ganddynt systemau da ar waith. Maent yn cynnal goruchwyliaeth ac arfarniadau gwerthfawr, i ddatblygu a chefnogi’r staff. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau bod staff gofal yn gweithredu polisïau y lleoliad yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn sicrhau bod bron yr holl gofnodion a gwybodaeth ofynnol ar waith. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn cadw AGC yn hysbys o newidiadau i’r staff.

## Llesiant

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan blant gyfleoedd i wneud dewisiadau am eu chwarae a'u dysgu. Mae ganddynt y rhyddid i chwilota eu hystafell chwarae a dewis pa deganau y maent am chwarae â hwy. Mae'r rhan fwyaf o’r plant yn siarad neu fynegi eu hunain yn hyderus, gan gyfleu eu hanghenion mewn amryw o ffyrdd, ac yn gwybod y bydd staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol. Er enghraifft, clywsom blant yn dewis pa bwdin yr hoffent ei gael amser cinio ac yn mynegi eu barn a safbwyntiau yn eglur.

Mae'r plant yn hapus, yn datgan brwdfrydedd, ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn adnabod y trefniadau arferol yn dda, hyd yn oed gyda'r arferion glanhau a hylendid ychwanegol sy’n gysylltiedig â COVID-19. Gwelsom aelod o staff gofal a oedd wedi cyrraedd ar gyfer ei shifft yn ystod yr awr ginio yn cael ei chyfarch yn gynnes wrth ei henw gan un plentyn a gwnaeth hithau gyfarch y plentyn yn ôl yn yr un ffordd. Mae’r plant yn ymdopi'n dda ag ymwahaniad gan fod ganddynt rwymau hoffter da tuag at y staff yn eu hystafell ofal ac yn ceisio pobl gyfarwydd y maent yn gwybod y byddant yn eu helpu.

Mae’r plant yn cael rhyngweithiadau da cyson gyda’i gilydd a'r staff gofal. Mae rhwymau cryf rhyngddynt a’r staff gofal, gan ddangos llawenydd wrth chwarae gyda nhw ac yn sgwrsio’n hapus â nhw. Mae'r plant yn dechrau dysgu am rannau a chymryd eu tro a gwelsom blant yn pasio teganau rhyngddynt ei gilydd. Maent yn awyddus i rannu eu brwdfrydedd gyda'r bobl o'u cwmpas. Gwelsom blant yn mynd at staff am gysur, gan deimlo wedi ymlacio ac yn hapus yn syth.

Mae plant yn mwynhau chwarae ac yn ddysgwyr chwilfrydig a chynhyrfus. Gwelsom blant yn yr adran am blant dros ddwy oed yn chwarae'n gyffrous â'r teganau byd bach. Roedd rhai babanod yn coginio bisgedi Nadolig i'w bwyta yn y brif ystafell chwarae, tra oedd babanod eraill yn yr ystafell fabanod yn dewis edrych ar lyfrau a chwarae â theganau rhyngweithiol. Roedd y plant yn canolbwyntio ar eu chwarae ac yn ymddiddori ynddo ac yn hapus i rannu eu cyffro gyda'r staff gofal. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol a gallant ddewis ymlacio a chael adegau distaw.

At ei gilydd, mae'r plant yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol, ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanddewisol ac mewn tasgau dan arweiniad staff, ac yn canolbwyntio arnynt, yn dda iawn, ac am gyfnodau priodol. Er enghraifft, gwelsom blant yn mwynhau wrth chwarae â theganau adeiladu gyda'u cyfoedion a staff. Gwelsom blant eraill yn mwynhau chware dychmygol ag anifeiliaid byd bach.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae staff gofal yn deall ac, at ei gilydd, yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau yn gyson i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol. Maent yn dilyn ac yn gweithredu'r canllawiau ar fesurau diogelu, polisïau ac asesiadau risg, gan lanhau mannau prysur yn y feithrinfa yn aml. Maent yn dilyn trefniadau glanhau ac arferion golchi dwylo yn drwyadl ac yn aml, gan annog plant neu eu cefnogi i wneud yr un fath. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff yn dilyn y polisi newid cewynnau yn llawn. Er enghraifft, ni wnaeth un aelod o staff olchi ei ddwylo cyn newid cewynnau ac ni newidiodd y papur glas untro rhwng newid dau o blant. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac maent yn cael hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth briodol o oedran y plant maent yn gofalu amdanynt. Mae gan staff gofal ddealltwriaeth dda o'r hyn i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn, neu os oedd problem ynghylch diogelu.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau cadarnhaol i'r amgylchedd. Mae gan y plant ddigon o le i chwilota ystod o wahanol rannau o'r brif ystafell chwarae ac mae gan y babanod eu hystafell ganolog eu hunain. Mae'r bobl sy'n cyflenwi'r gwasanaeth yn trefnu'r amgylchedd yn dda i sicrhau bod y plant yn gallu ei ddefnyddio'n llawn. Gall plant gael mynediad yn annibynnol at ystod eang o deganau, adnoddau ac offer sy'n briodol i'w cam datblygu a'u hoedran.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn gweithio'n effeithiol. Mae ganddynt systemau da ar waith i adolygu a diweddaru eu cofnodion ac, ers yr arolygiad diwethaf, maent wedi sicrhau eu bod yn dyddio eu polisïau at ddibenion adolygu. Maent yn sicrhau bod staff gofal yn eu gweithredu'n ymarferol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff gofal yn dilyn polisïau'r lleoliad yn llawn. Er enghraifft, nid yw asesiadau risg yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol fel y nodir yn y polisi asesu risg. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu'r holl argymhellion o'i arolygiad diwethaf. Mae'n ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, nid oedd y bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi hysbysu AGC o newidiadau i'r staff. Ers yr arolygiad, mae'r darparwr gwasanaeth wedi hysbysu AGC o newidiadau i'r staff.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cadw cofnodion trefnus iawn o wiriadau cyn cyflogi, hyfforddiant, a gwybodaeth a dealltwriaeth y staff. Fodd bynnag, roedd un ffeil staff ond yn cynnwys un geirda. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi cadarnhau bod yr holl ffeiliau staff yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau buddiol. Maent yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau a phrofforma cynhwysfawr i ganolbwyntio ar gryfderau a gwendidau, hyfforddiant a datblygiad staff unigol, ac yn rhoi cyfleoedd i staff gofal leisio unrhyw bryderon. Eglurodd staff gofal eu bod yn ymwybodol o'u rolau a'u chyfrifoldebau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli ac aelodau eraill o staff. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau eu bod yn defnyddio staff gofal yn dda i sicrhau eu bod yn bodloni cymarebau staffio a bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Sicrhau bod staff gofal yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad.

A1 – Sicrhau bod staff gofal yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 28/02/2022